# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei gweithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Wendy Fitzgerald | Adran Etholiadol: | Penllergaer |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Nid wyf yn cynnal cymorthfeydd gan fy mod yn meddwl ei fod yn annerbyniol bod yn rhaid i breswylwyr aros i'm gweld mewn cymhorthfa a gynhelir unwaith neu ddwywaith y mis (rhywbeth yr oeddwn i'n arfer ei wneud) pan fydd fydd ganddynt broblemau brys. Felly, anogir pob preswylydd i'm ffonio neu fy e-bostio drwy fy nghylchlythyrau yn rheolaidd, pryd bynnag mae ganddynt rywbeth i'w drafod neu mae angen cymorth arnynt. Mae hyn yn golygu fy mod i'n ymweld â phobl yn eu cartref, fel arfer sawl gwaith yr wythnos, i weld beth yw'r problemau drosof i fy hun ac yna cymryd y camau angenrheidiol. Drwy gydol y flwyddyn, rydw i wedi cyfathrebu â nifer o sefydliadau allanol ar ran preswylwyr yn ogystal â bod yn ganolwr o ran ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r cyngor. Rwy'n siŵr y gall sawl swyddog y cyngor dystio fy mod i'n cyfathrebu'n aml ynglŷn â phriffyrdd, parciau a materion sbwriel yn ogystal ag anfon e-byst bron yn ddyddiol i'r Swyddfa Dai Ranbarthol yn Gorseinon. Drwy fy nghylchlythyr rydw i'n gallu rhoi'r diweddaraf i breswylwyr ar bopeth rydw i'n ei wneud mewn rhannau amrywiol o'r ward a phan gyflwynir hyn, mae'r ymatebion rwyf yn eu derbyn, boed yn alwadau ffôn neu'n e-byst, yn darparu adborth hynod ddefnyddiol i mi.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr is-adran etholiadol.

Dangosir isod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgorau:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgor y Cyfansoddiad | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Y Cyngor | 14 | / | 18 | 78 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 14 | / | 15 | 93 | % |
| **CYFFREDINOL** | **29** | **/** | **34** | 85 | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu:** | | | | | |
| Gweithgor Craffu Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy | 5 | / | 9 | 56 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Cynhwysiad Addysg | 6 | / | 8 | 75 | % |
| Gweithgor Craffu Rheoli Perygl Llifogydd Lleol | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Strydlun | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Gweithgor Craffu Cynaladwyedd | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Gweithgor Cadw Coed | 1 | / | 1 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **12** | **/** | **21** | **57** | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Cynrychioli fy ward yw fy mhrif flaenoriaeth ac mae'r rhan fwyaf o'r hyn rwyf yn ei wneud felly yn canolbwyntio ar y buddion y gallaf eu cyflwyno i'r gymuned. Rwy'n Ymddiriedolwr yn Ymddiriedolaeth Penllergaer, yr ysbrydoliaeth a'r sefydliad y tu ôl i adfer Coed Cwm

Penllergaer. Rwy'n mynychu cyfarfodydd misol yr Ymddiriedolaeth ac amrywiaeth o ddigwyddiadau eraill y mae'n eu cynnal.
Rwyf hefyd yn gynghorydd cymuned hirsefydlog ac, ym Mhenllergaer, dyma'r corff sy'n berchen ar neuadd y pentref, y cae chwaraeon a'r pafiliwn ac yn eu cynnal. Mae llawer i'w wneud i sicrhau bod yr asedau hyn yn cael eu cadw a'u gwerthfawrogi.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Fy mhrif ffocws oedd y Cynllun Datblygu Lleol a'r effaith y bydd 850 mwy o dai yn cael ar fy ward. Rwy'n arwain yr ymgyrch i wrthwynebu'r cynnig hwn, rwyf wedi cynnal sawl cyfarfod cyhoeddus ac rwy'n rhoi'r diweddaraf i breswylwyr ar gynnydd drwy fy nghylchlythyron a thaflennu gwybodaeth ychwanegol.

Y llynedd, cafodd le chwarae Comin y Gors ei wella. Roeddwn yn rhan o'r trafodaethau cynnar â Bellway a ddarparodd gyllid ychwanegol drwy'r 106 o gytundebau ar gyfer datblygiad Parc Penderi. Nid oedd y swm llawn o arian ar gael nes bod y stâd bron wedi'i chwblhau. Dychrynais pan glywais fod y cyngor am ddefnyddio bron dwy ran o dair o'r swm hwn i ymdrin â'r problemau draenio hirdymor o fewn y lle chwarae ac o'i amgylch. Roedd hyn yn golygu mwy o drafodaethau caled i sicrhau bod digon o arian ar gael ar gyfer y gwelliannau sylfaenol sydd eu hangen ac sy'n hirddisgwyliedig.

Gan fod y cyngor cymuned yn ariannu yr hyn yr oedd y plant am ei gael fwyaf - gwifren sip - mae'r canlyniad wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Fodd bynnag, yr anfantais yw bod y lle chwarae, gydag arwyneb sy'n addas ar gyfer pob tywydd ac offer ar gyfer pob oedran, yn denu teuluoedd a phlant o ardal gyfan gogledd Abertawe, sy'n creu problemau i breswylwyr yn ardal y lle chwarae. Rwyf felly wedi gorfod dod o hyd i barcio oddi ar y ffordd a disgwylir i linellau melyn dwbl gael eu gosod ar ochr ddeheuol Heol Gors cyn gwyliau haf yr ysgol er mwyn hwyluso'r sefyllfa i breswylwyr.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:
13/04/2016 - S.106 Cytundebau/Rhwymedigaethau Cynllunio
25/11/2015 - Cyflwyniad i Gynnwys y Gymuned

O ganlyniad i'm cyfraniad i'r CDLl, rwyf wedi datblygu rhywfaint o arbenigedd yn y maes hwn yr wyf yn parhau i'n parhau i'w ddefnyddio'n dda.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**
-

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| **Dyddiad:** | 29.07.2016 |
|---|---|